

# Strategaeth Anabledd Dysgu

2024-2029

Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg | West Glamorgan Regional Partnership



**Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau gwahanol.**

Cysylltwch â **Swyddog Trawsnewid Gorllewin Morgannwg** gyda manylion eich gofynion:

E-bost: **west.glamorgan@abertawe.gov.uk** | Ffôn: **01792 633 805**

# CYNNWYS


## Cyflwyniad — 4

Cefndir — 5

Cyd-destun — 6

## Adran 1 – Sefydlu ein Nodau — 8

Bwrdd Rhanbarthol y Rhaglen Lles ac Anableddau Dysgu — 9

Gweledigaeth y Rhaglen Lles ac Anabledd Dysgu — 10

Sut cafodd y strategaeth ei datblygu — 12

Cydweddu Strategol — 7

## Adran 2 – Diffinio'r cyd-destun — 16

Ynghylch pobl ag Anabledd Dysgu — 16

Ynglŷn â'r rhanbarth — 18

Ynglŷn â'r gwasanaethau — 20

## Adran 3 – Ein blaenoriaethau — 22

**Beth sy'n bwysig i bobl ag anableddau dysgu? — 22**

Cludiant — 22

Cael y gofal a'r gefnogaeth gywir — 24

Fy nghymuned — 26

Dysgu Gydol Oes — 28

Swyddi a Gwirfoddoli — 29

Fy nghartref — 31

Gwneud fy mhenderfyniadau fy hun a chael dweud fy marn — 32

## Adran 4 – Cyflawni ein blaenoriaethau — 34

Sut y byddwn yn cyflawni ein strategaeth? — 34

Sut y byddwn yn gwybod bod y strategaeth yn gwneud gwahaniaeth? — 43

## Atodiad A – Ysgogwyr Strategol — 44

# CYFLWYNIAD

Mae Bwrdd Rhaglen Lles ac Anabledd Dysgu Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg yn falch o gyflwyno'r Strategaeth Anabledd Dysgu bum mlynedd ranbarthol gyntaf i oedolion sy'n byw yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

## Mae'r strategaeth hon yn disgrifio:

- Ein gweledigaeth gyffredin.
- Y themâu allweddol a nodwyd i wella gwasanaethau sy'n seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i oedolion ag anableddau dysgu yn rhanbarth Gorllewin Morgannwg.
- Y materion allweddol y mae angen mynd i'r afael â hwy dros y pum mlynedd nesaf i ddarparu gwasanaethau anabledd dysgu o ansawdd da sy'n cynnwys gweithio mewn partneriaeth i gefnogi oedolion i gyflawni'r hyn sy'n bwysig yn eu bywyd.

## Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd â:

- Strategaeth Anabledd Dysgu Plant a Phobl Ifanc Gorllewin Morgannwg (Yn cael ei datblygu)
- Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol Gorllewin Morgannwg
- Strategaeth Lles Emosiynol a Meddyliol Ranbarthol Gorllewin Morgannwg
- Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gorllewin Morgannwg
- Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad Gorllewin Morgannwg
- Grŵp, Fframwaith, Pecyn Cymorth a Siarter Cyd-gynhyrchu Gorllewin Morgannwg
- Strategaeth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg
- Strategaeth Digidol Gorllewin Morgannwg (Yn cael ei datblygu)
- Strategaeth Awtistiaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg (Yn cael ei datblygu)
- Strategaeth Plant a Phobl Ifanc Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg (Yn cael ei datblygu)
- Cynllun Cyfalaf Strategol Gorllewin Morgannwg (Yn cael ei ddatblygu)

Mae fersiynau Hawdd eu Darllen a Chymraeg o Strategaeth Anabledd Dysgu Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg ar gael.

## Cefndir


Sefydlwyd Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin gan y pedwar Prif Weithredwr yn y tri awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd ym mis Ionawr 2011, cyn unrhyw fandad gan Lywodraeth Cymru.

Mae partneriaethau rhanbarthol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol wedi bod yn rhan o'r darlun llywodraethu cenedlaethol yng Nghymru ers 2016, pan sefydlwyd y chwe rhanbarth arall.

Ym mis Ebrill 2019, cytunwyd ar newid mawr pan wnaed ardal Awdurdod Lleol Pen-y-bont ar Ogwr - a fu'n rhan o ranbarth Bae'r Gorllewin a oedd yn cynnwys Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot - yn rhan o ranbarth newydd Cwm Taf Morgannwg. O ganlyniad, ailstrwythurwyd y rhan fwyaf o raglenni a gwasanaethau.

Newidiodd Bae'r Gorllewin i **Orllewin Morgannwg** a sefydlwyd trefniadau llywodraethu newydd.

- BIP BETSI CADWALADER
- BIA POWYS
- BIP HYWEL DDA
- BIP ANEURIN BEVAN
- BIP BAE ABERTAWE
- BIP CWM TAF MORGANNWG
- BIP CAERDYDD A'R FRO




## Cyd-destun

Mae gweithio rhanbarthol i Gymru yn rhan bwysig o'r gwaith ehangach i ddiwygio'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu rheoli, y bwriedir iddynt fod yn fwy systematig a gorfodol wrth gael eu hysgogi gan anghenion y boblogaeth leol.

Mae Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg yn drefniant partneriaeth a sefydlwyd fel ymateb i ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn ystod 2015. Mae Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – yn benodol Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth) Rhan 9 – yn nodi'r sefydliadau canlynol fel **Cyrff Partneriaeth** at ddibenion Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015.

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Cyngor Abertawe
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Partneriaid y trydydd sector ac annibynnol, ac
- Aelodau o'r gymuned a gofalwyr di-dâl



O dan y rheoliadau hyn, mae'n ofynnol i Gyrff Partneriaeth sefydlu **Bwrdd Partneriaeth**, a elwir yn y rhanbarth hwn yn Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg [BPRh].

Nid oes gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân ac mae cyfeiriadau at y Bwrdd yn gyfeiriadau at aelodau'r Bwrdd sy'n gweithredu ar y cyd.

Mae rhanbarth Gorllewin Morgannwg yn cwmpasu ardaloedd awdurdodau lleol Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot, gyda phoblogaeth o oddeutu 389,000.

Mae llawer o'r hyn rydym am ei gyflawni yn y rhanbarth yn cael ei ysgogi gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r agenda genedlaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, a ddiffinnir gan Lywodraeth Cymru yn y ddogfen 'Cymru Iachach' ac o dan gyfarwyddyd strategol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae'r ddeddfwriaeth hon a'r polisi cenedlaethol yn nodi'r weledigaeth a'r disgwyliadau ar gyfer sut fath o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fydd ar gael yn y dyfodol. Drwy'r fframwaith llywodraethu hwn, gallwn sicrhau ein bod yn dilyn yr un daith yng Ngorllewin Morgannwg wrth sicrhau bod anghenion pobl a chymunedau yn ganolog i'r daith.



# ADRAN 1
# Sefydlu ein Nodau

## Bwrdd Rhanbarthol y Rhaglen Lles ac Anableddau Dysgu

Er mwyn mynd i'r afael yn llawn â thrawsnewid gwasanaethau ar gyfer y boblogaeth anabledd dysgu, sefydlwyd Rhaglen Lles ac Anableddau Dysgu Gorllewin Morgannwg yn 2021, o fewn llywodraethu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Arweinir y rhaglen gan fwrdd lle mae'r aelodaeth yn cynnwys sefydliadau'r trydydd sector, pobl â phrofiad bywyd, rhieni sy'n ofalwyr, a chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Gwasanaethau Cymdeithasol Abertawe ac adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg Castell-nedd Port Talbot.

Mae'r strategaeth hon yn ymateb rhanbarthol i anghenion oedolion ag anableddau dysgu ac mae'n disgrifio'r ymrwymiad i genhadaeth strategol hirdymor ar gyfer diwallu eu hanghenion dros y pum mlynedd nesaf yng nghyd-destun deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol, cynlluniau rhanbarthol, a'r adnoddau sydd ar gael.

Bydd y strategaeth hefyd yn llywio Cyngor Abertawe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe a sefydliadau'r Trydydd Sector yn y rhanbarth, ar lefel leol.

Mae pobl ag anableddau dysgu yn un o'r grwpiau poblogaeth a flaenoriaethwyd gan 'Fodelau Gofal' Llywodraeth Cymru ac mae wedi galluogi'r rhaglen i wneud cais am Gyllid Integreiddio Rhanbarthol i gyflawni rhaglen newid bum mlynedd, sy'n rhedeg o fis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2027.

Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn adeiladu ar y dysgu a'r cynnydd a wnaed o dan y Gronfa Gofal Integredig (GGI) flaenorol a'r Gronfa Trawsnewid (CT) a bydd yn ceisio mynd ati i newid systemau mewn ffordd gynaliadwy drwy integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae nodweddion a gwerthoedd allweddol y gronfa'n cynnwys:

- Ffocws cryf ar ymyrryd yn gynnar ac atal.
- Datblygu a gwreiddio modelau gofal integredig cenedlaethol.
- Mynd ati i rannu dysgu ledled Cymru drwy Gymunedau Ymarfer.
- Adnoddau tymor hir cynaliadwy i wreiddio a phrif ffrydio modelau gofal newydd.
- Creu trefniadau cronfa a rennir tymor hir.
- Buddsoddiad cyson mewn cynllunio rhanbarthol ac isadeiledd partneriaeth.[1]

[1] Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Canllawiau Refeniw 2022-27 (llyw.cymru)

## Gweledigaeth y Rhaglen Lles ac Anabledd Dysgu

> Yn rhanbarth Gorllewin Morgannwg, mae gan bobl ag anabledd dysgu'r gefnogaeth gywir i wneud eu dewisiadau eu hunain i gyflawni bywyd hapus ac iach sy'n ystyrlon iddynt hwy. Maent yn cael cyfleoedd i ddysgu, gweithio a chyfrannu'n weithredol at eu cymunedau.

Mae Bwrdd y Rhaglen Lles ac Anabledd Dysgu yn ceisio adeiladu ar lwyddiannau blaenorol a gwneud newidiadau lle bo angen i drawsnewid gwasanaethau, gan alluogi pobl ag anableddau dysgu i gael bywydau boddhaus sy'n seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig iddynt.

Rydym yn bwriadu dysgu'n barhaus gan y rheini ag anableddau dysgu drwy gydol oes y strategaeth. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd gan ddefnyddio egwyddorion cydgynhyrchu i weithio mewn partneriaeth, gwrando, parchu a chefnogi'r boblogaeth anabledd dysgu yn briodol a byddwn yn cynnwys:

- Ymagwedd strategol at gefnogi pobl ag anableddau dysgu sy'n cael ei hysgogi gan anghenion y boblogaeth, gan gynnwys ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn at weithio gyda phobl.
- Gwreiddio'r egwyddorion cywir ar draws ein sefydliadau a'n gwasanaethau gan gynnwys sut rydym yn mynd i'r afael â materion fel iaith, stigma a gwahaniaethu.
- Ymgysylltu'n fwy â phobl sydd â phrofiad personol a rhanddeiliaid allweddol eraill, a'u cynrychioli'n fwy.
- Data o ansawdd gwell gan gynnwys profiadau bywyd go iawn ac astudiaethau achos/straeon digidol o bob rhan o'r boblogaeth.
- Gwell defnydd o adnoddau, asedau a gweithwyr medrus i sicrhau gwell canlyniadau a hynny'n fwy effeithlon.
- Trawsnewid sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu drwy dreialu modelau gofal newydd ac integreiddio darpariaeth gwasanaethau.

## Sut cafodd y strategaeth ei datblygu

Er mwyn gallu datblygu Strategaeth Anabledd Dysgu, roedd Bwrdd y Rhaglen Lles ac Anabledd Dysgu eisiau i lais pobl ag anableddau dysgu fod yn ddylanwad ar y strategaeth. Crëwyd cynllun ymgysylltu i sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau anabledd dysgu a'r rheini sy'n eu cefnogi'n gallu dweud wrthym beth sy'n bwysig iddynt hwy.

Comisiynwyd Eiriolaeth eich Llais (Your Voice Advocacy) (elusen anabledd dysgu leol sy'n cwmpasu rhanbarth Gorllewin Morgannwg) ym mis Ionawr 2022, i wneud gwaith ymgysylltu ar gyfer y strategaeth.

Dros gyfnod o dri mis, cynhaliodd Eiriolaeth eich Llais gyfres o gyfleoedd ymgysylltu a gyd-gynhyrchwyd gyda'u Grŵp Eiriolaeth Anabledd Dysgu.

Sefydlwyd y cyfleoedd ymgysylltu canlynol ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu, eu gofalwyr, a staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau anabledd dysgu:

- Arolwg ar-lein i gasglu gwybodaeth am y prif feysydd sydd bwysicaf i bobl ag anableddau dysgu a'u rhwydweithiau cefnogi.
- Gweithdai ar-lein ac wyneb yn wyneb – cynhaliwyd gweithdai i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y gwasanaethau anabledd dysgu.
- Cynhaliwyd cyfweliadau unigol gyda detholiad o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg, staff na allent fynd i'r gweithdai ac aelodau o grwpiau anodd eu cyrraedd, gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig a'r gymuned LHDTC+.

Nododd y digwyddiadau ymgysylltu sawl maes blaenoriaeth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a'u rhwydweithiau cefnogi. Yna datblygodd Bwrdd y Rhaglen Lles ac Anabledd Dysgu y meysydd blaenoriaeth hyn yn themâu.

Mae rhagor o wybodaeth am y blaenoriaethau a'r themâu ymgysylltu ar gael yn Adroddiad Ymgysylltu'r Strategaeth Anabledd Dysgu 2022 ac yn Adran 3: Ein Blaenoriaethau – Beth sy'n bwysig i bobl ag anabledd dysgu.

I archwilio'r themâu ymhellach, cynhaliwyd digwyddiad anabledd dysgu rhanbarthol ar 4 Mai 2023 o'r enw Mae Eich Llais yn Cyfrif. Aeth dros 100 o bobl i'r digwyddiad ac roedd yn cynnwys pobl ag anabledd dysgu, gofalwyr/rhieni a gweithwyr proffesiynol.

Nod y digwyddiad oedd darparu cyfle ymgysylltu pellach i:

- gyflwyno a datblygu'r themâu a nodwyd o'r meysydd blaenoriaeth a ddeilliodd o ddigwyddiadau ymgysylltu Eiriolaeth Eich Llais.
- datblygu'r broses o gyflawni'r strategaeth, blaenoriaethu'r themâu, cynllunio sut a phryd y cyflawnir gwaith ar bob thema.

Lansiodd digwyddiad Mae Eich Llais yn Cyfrif y Fforwm Cyswllt Anabledd Dysgu Rhanbarthol ar gyfer oedolion a phlant a phobl ifanc. Datblygwyd y Fforwm Cyswllt Anabledd Dysgu i weithio mewn partneriaeth â Bwrdd y Rhaglen Lles ac Anabledd Dysgu.

Mae'r Fforwm Cyswllt Anabledd Dysgu hefyd yn cefnogi datblygiad y Strategaeth Anabledd Dysgu a'i chynllun gweithredu. Rydym wedi gweithio gyda'r garfan oedolion o'r Fforwm Cyswllt Anabledd Dysgu i greu gweledigaeth y strategaeth ac mae aelodau'r fforwm wedi cwblhau'r enwau ar gyfer y themâu a'r blaenoriaethau ac wedi rhoi enghreifftiau o'r hyn y byddai'n cael ei ystyried yn 'dda' ar gyfer pob thema.

Mae rhagor o wybodaeth am y Fforwm Cyswllt Anabledd Dysgu ar gael yma.

Isod mae detholiad o ddyfyniadau gan oedolion ag anableddau dysgu, yn ogystal â rhieni sy'n ofalwyr. Rhoddwyd y dyfyniadau hyn yn y cyfleoedd ymgysylltu yn ystod datblygiad y strategaeth:

Mae gennym hawl i gael yr hyn y mae gan bawb arall fynediad ato.

Ni ddylai gofal cymdeithasol fod yn ddim byd i ni hebon ni.

Dylai pawb gael dewis, waeth beth yw'r sefyllfa.

Dylwn fod yn gallu defnyddio fy sgiliau, ond mae pobl yn gweld fy anabledd yn gyntaf - dwi wedi rhoi'r gorau i roi cynnig ar bethau nawr gan ei fod yn peri cymaint o ofid i mi.

Mae'n anodd iawn cael mynediad at weithgareddau cymdeithasol yn y gymuned.

Mae rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am faterion iechyd, a'n hysbysu'n rheolaidd mor bwysig.

Mae COVID wedi amlygu'r bylchau mewn gwasanaethau a'r diffyg gwasanaethau sydd eu hangen i gefnogi pobl i ddychwelyd i ryw fath o normalrwydd.

Rydym yn poeni na fydd gofalwyr yn gofalu amdanom.

Dwi'n poeni am symud ac i ble i symud.

Hoffwn i'm mab gael bywyd llawn yn seiliedig ar y pethau mae'n eu mwynhau ac nid yr hyn y gall gofal ei ddarparu.



## Cydweddu Strategol

Y prif ysgogwyr strategol i'r strategaeth hon yw:

- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Cynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu Llywodraeth Cymru 2022-2026
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Model Cymdeithasol o Anabledd
- Canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005

## Deddf Hawliau Dynol 1998

Gwnaeth Deddf Hawliau Dynol (DHD) 1998 hawliau dynol yn rhan o gyfraith ddomestig, sydd ar gael i bawb yn y DU.[2]

Daeth y ddeddf â'r hawliau yn y Confensiwn Ewropeaidd i gyfraith y Deyrnas Unedig. Mae'n golygu bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus fel ysgolion, ysbytai a'r heddlu amddiffyn hawliau dynol. Os torrir hawliau dynol, gall dinasyddion y DU fynd i lys domestig i orfodi eu hawliau.

Ar hyn o bryd mae gan bawb yng Nghymru hawl i'r hawliau yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, y DHD ac yng nghyfraith yr UE. Mae rhai cyfreithiau Cymreig yn gysylltiedig â chyfraith hawliau dynol ryngwladol.

Er enghraifft, mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth iddynt wneud penderfyniadau. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Cymru 2017 yn amodi na all y Cynulliad wneud penderfyniadau na chyfreithiau nad ydynt yn cydymffurfio â deddfwriaeth hawliau dynol.

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Cyflwynodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[3] newid mawr i ofal cymdeithasol yng Nghymru, gan roi atal a hyrwyddo lles i bawb sydd ag anghenion gofal neu gefnogaeth ar sail statudol am y tro cyntaf.

Newidiodd y Ddeddf y ffordd yr asesir anghenion pobl a'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu fel bod gan bobl fwy o lais yn y gofal a'r gefnogaeth a gânt. Mae'r ddeddf hefyd yn hyrwyddo ystod o gymorth sydd ar gael yn y gymuned i leihau'r angen am gefnogaeth ffurfiol, gynlluniedig.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[4] yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff rhestredig weithio gyda'i gilydd i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Un nod llesiant yw Cymru fwy cyfartal lle gall pawb gyrraedd ei botensial.

Mae'r Ddeddf yn cynnig y potensial i wella gwasanaethau a chefnogaeth i bobl anabl yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno gofyniad i feddwl am **effaith** hirdymor penderfyniadau, **gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a gweithwyr proffesiynol** ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

[2] Canllaw ar hawliau dynol yng Nghymru (senedd.cymru)

[3] **Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2016), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Yr Hanfodion, [cyrchwyd: 12 Tachwedd 2021].**

[4] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) | LLYW.CYMRU

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

Pwrpas y Confensiwn yw hybu ac amddiffyn holl hawliau dynol a phob rhyddid sylfaenol yr holl bobl ag anableddau a sicrhau eu bod yn eu mwynhau yn llawn ac yn gyfartal, ac fe'i cadarnhawyd gan Lywodraeth y DU yn 2009.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at adroddiad gwladwriaeth y DU yr adroddir amdano bob pum mlynedd ac mae wedi gwneud ymrwymiad yn y Fframwaith Gweithredu ar Fyw'n Annibynnol[5] i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Confensiwn gan gynnwys bodloni argymhellion priodol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig.

## Deddf Cydraddoldeb 2010

Daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 â deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol ynghyd mewn un ddeddf. Mae'n darparu fframwaith cyfreithiol i amddiffyn hawliau unigolion a hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb. Mae'n egluro'r hyn y mae'n rhaid i'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol ei wneud yn gyfreithiol i sicrhau nad yw pobl â nodweddion gwarchodedig (fel anabledd dysgu) dan anfantais.[6]

## Cynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu Llywodraeth Cymru 2022-2026

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn nodi agenda strategol hollgynhwysol Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu a gweithredu polisi anabledd dysgu ar gyfer gweddill tymor presennol y llywodraeth, 2022 i 2026.

Gan adeiladu ar lwyddiant a momentwm y rhaglen Gwella Bywydau, mae'r cynllun gweithredu yn cyd-fynd yn llawn ag ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a'r egwyddorion a'r amcanion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).[7]

## Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Y Ddeddf) yn darparu ar gyfer fframwaith statudol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae hyn yn disodli deddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig (AAA) ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

Mae'r Ddeddf hefyd yn parhau â bodolaeth Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, sy'n gwneud darpariaeth i blant, eu rhieni a phobl ifanc apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod lleol mewn perthynas ag ADY y plentyn neu'r person ifanc, gan ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru.[8]

[5] **Gweithredu ar Anabledd: Fframwaith a Chynllun Gweithredu Hawl i Fyw'n Annibynnol (Llywodraeth Cymru 2019) a gyrchwyd ym mis Chwefror 2022**

[6] [Hft | Disability Rights & Legal | The Equality Act 2010]

[7] [learning-disability-strategic-action-plan-2022-2026 (1).pdf]

[8] [https://www.llyw.cymru/anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-memorandwm-esboniadol (llyw.cymru)]

## Model Cymdeithasol o Anabledd

Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn gwneud gwahaniaeth pwysig rhwng 'nam' ac 'anabledd'. Mae'n cydnabod bod pobl â namau yn cael eu hanablu gan rwystrau sy'n bodoli'n gyffredin mewn cymdeithas. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys agweddau negyddol, a rhwystrau ffisegol a sefydliadol, a all atal pobl anabl rhag cael eu cynnwys a chymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd.

Datblygwyd y model cymdeithasol gan bobl anabl ac fe'i mabwysiadwyd yn ffurfiol gan Lywodraeth Cymru yn 2002 a chan Raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop 2014-20.[9]

## Canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)[10]

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) i wella ansawdd mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae cytundeb bod holl ganllawiau a safonau ansawdd NICE ar gael i'w defnyddio yng Nghymru. Ac eithrio'r Canllawiau Arfarnu Technoleg (TAGS), nid oes yn rhaid eu defnyddio.

Mae canllawiau NICE yn cwmpasu:

- Canllawiau NICE
- Canllawiau Arfarnu Technoleg
- Canllawiau diagnosteg
- Canllawiau technolegau meddygol
- Canllawiau gweithdrefnau ymyriadol
- Canllawiau technolegau arbenigol iawn.

## Deddf Galluedd Meddyliol 2005[11]

Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (DGM) wedi bod mewn grym ers 2007 ac mae'n berthnasol i Gymru a Lloegr. Prif bwrpas y DGM yw hyrwyddo a diogelu'r broses o wneud penderfyniadau o fewn fframwaith cyfreithiol. Mae'n gwneud hyn mewn dwy ffordd:

- Drwy rymuso pobl i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain pryd bynnag y mae hyn yn bosib, a diogelu pobl nad oes ganddynt y galluedd drwy ddarparu fframwaith hyblyg sy'n gosod unigolion wrth wraidd y broses gwneud penderfyniad
- Drwy ganiatáu i bobl gynllunio ar gyfer adeg yn y dyfodol pan na fydd ganddynt alluedd efallai.

Mae llawer o ysgogwyr, angenrheidiau a dylanwadau strategol eraill sy'n sail i'r Strategaeth Anabledd Dysgu hon. Mae trosolwg o bob ffynhonnell cyfeiriad strategol wedi'i gynnwys yn **Atodiad A**.

[9] Y Model Cymdeithasol - Anabledd Cymru

[10] Canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) | LLYW. CYMRU

[11] Mental Capacity Act 2005 at a glance | SCIE

# ADRAN 2
# Diffinio'r cyd-destun

## Ynghylch pobl ag Anabledd Dysgu

### Diffiniadau o Anabledd Dysgu

At ddibenion y strategaeth hon, defnyddir y term pobl ag anabledd dysgu gan fod hyn yn dal i gael ei gydnabod a'i ddefnyddio'n eang ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd gan bobl ddewisiadau iaith gwahanol i ddisgrifio'u hunain. Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn dweud bod pobl yn cael eu hanablu gan eu hamgylchedd nid oherwydd eu nam na'u gwahaniaeth ac yn defnyddio'r term pobl anabl.

Dywed y Model Meddygol o Anabledd fod pobl wedi'u hanablu gan eu namau a'u gwahaniaethau.[12]

Gan gydnabod y gwahanol ddiffiniadau, mae'r canlynol hefyd ar gael:

Bydd gan bawb ag anabledd dysgu sgiliau, cryfderau a galluoedd unigryw. Weithiau mae angen help ychwanegol ar bobl ag anableddau dysgu i gadw'n iach, yn ddiogel a chael y bywyd gorau y gallant. Bydd lefel y gefnogaeth sydd ei hangen yn edrych yn wahanol i bob person.

Mae bod ag anabledd dysgu yn golygu bod gan berson allu deallusol is. Efallai na fyddant yn gallu deall a chadw gwybodaeth ac efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd mynegi eu meddyliau a'u teimladau.[13]

[12] www.scope.org.uk/about-us/social-model-of-disability/

[13] Anableddau Dysgu - Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (gig.cymru)



## Ffactorau Ffordd o Fyw

Roedd ymchwil a gwblhawyd ar gyfer Asesiad Anghenion Poblogaeth Gorllewin Morgannwg, yn nodi'r ffactorau ffordd o fyw canlynol sy'n effeithio ar oedolion, plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu:

- Anghydraddoldebau iechyd
- Tai
- Tlodi a chyflogaeth
- Unigrwydd, Ynysigrwydd Cymdeithasol a COVID 19
- Cynhwysiad Digidol
- Cludiant
- Addysg
- Eiriolaeth
- Pontio i oedolaeth

Mae rhagor o wybodaeth am y ffactorau ffordd o fyw hyn ar gael yn Asesiad o Anghenion Poblogaeth Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.

## Ynglŷn â'r rhanbarth

Yn ôl data poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019), mae:

- Tua 54,000 o oedolion ag anabledd dysgu yng Nghymru
- Tua 40,000 o oedolion o oedran gweithio ag anabledd dysgu yng Nghymru
- Tua 16,000 o blant ag anabledd dysgu (0-17 oed) yng Nghymru
- Tua 5,000 o blant ag anabledd dysgu (0-5 oed) yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae Mencap[14] yn dweud mai dim ond 1 o bob 4 person ag anabledd dysgu yng Nghymru sy'n hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol.

[14] **Mencap [Cyrchwyd 12 Tachwedd 2021] https://www.mencap.org.uk/**

Isod mae ffigurau amcangyfrifedig lleol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn rhanbarth Gorllewin Morgannwg:

| CATEGORI | FFIGURAU CYMRU SYG (Y SWYDDFA YSTADEGAU GWLADOL) | YN SEILIEDIG AR % POBLOGAETH CYMRU YN Y RHANBARTH (12.33%) |
|---|---|---|
| **Oedolion ag Anabledd Dysgu (AD)** | **54,000** | **6,661** |
| **Oedolion oedran gweithio ag AD** | **40,000** | **4,934** |
| **Plant 0-17 oed ag AD** | **16,000** | **1,974** |
| **Plant 0-5 oed ag AD** | **5,000** | **617** |

Y data diweddaraf sydd ar gael ar nifer y bobl ag anabledd dysgu a gefnogir gan Ofal Cymdeithasol[15]:

| | DAN 16 OED | 16-64 OED | 65+ OED | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| CNPT – (CASTELL-NEDD PORT TALBOT) | 176 | 373 | 37 | 586 |
| ABERTAWE | 253 | 784 | 71 | 1,108 |
| CYFANSWM | 429 | 1,157 | 108 | 1,694 |



[15] Unigolion ag anableddau dysgu yn ôl awdurdod lleol, gwasanaeth ac ystod oedran (llyw.cymru)

## Ynglŷn â'r gwasanaethau

Mae pobl ag anableddau dysgu yn cael mynediad at wasanaethau generig y GIG a'r cyngor sydd ar gael i'r boblogaeth, ond gall fod angen mynediad arnynt hefyd at wasanaethau anabledd dysgu arbenigol sy'n benodol i'w hanghenion.

Mae amrywiaeth o wasanaethau arbenigol ar gael i bobl ag anabledd dysgu ar draws Gorllewin Morgannwg a ddarperir gan:

- Wasanaethau cyhoeddus statudol a ddarperir gan Awdurdodau Lleol neu Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Gwasanaethau gwirfoddol (a gefnogir gan fudiadau gwirfoddol yn y Trydydd Sector ond sydd wedi'u hariannu o wahanol ffynonellau gan gynnwys Llywodraeth Cymru)
- Gwasanaethau preifat.

### Iechyd

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn darparu gwasanaethau anabledd dysgu oedolion arbenigol ar draws yr ardal ddaearyddol a gwmpesir gan Fyrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cwm Taf Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro.

Caiff gwasanaethau eu rheoli'n weithredol yng Ngrŵp Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu'r Bwrdd Iechyd gydag Is-adran benodol yn canolbwyntio ar wasanaethau anabledd dysgu.

Mae Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol i'w gael ar gyfer Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae'r timau cymunedol yn amlddisgyblaethol ac yn cynnwys Seicoleg, Nyrsio Anabledd Dysgu Cymunedol, Therapi Galwedigaethol, Ffisiotherapi, Therapi Lleferydd ac Iaith a Seiciatreg.

Mae rhagor o wybodaeth am wasanaethau anabledd dysgu Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar gael ar eu gwefan: Anableddau Dysgu - Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (gig.cymru).

### Gofal Cymdeithasol

Mae Cyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn darparu gwasanaethau anabledd dysgu oedolion arbenigol ar draws pob ardal ddaearyddol. Mae timau Anabledd Dysgu Cymunedol yn gweithio ochr yn ochr â phobl ag anableddau dysgu a'u rhwydweithiau cefnogi i asesu anghenion, cytuno ar ganlyniadau a datblygu cynlluniau gofal. Mae'r timau'n darparu mynediad at wybodaeth, cyngor a chefnogaeth i bobl ag anableddau dysgu gael mynediad at ystod eang o gymorth gan gynnwys:

- cyfleusterau cymunedol integredig
- cyfleoedd dydd
- gofal cartref

- gofal seibiant
- byw â chymorth
- gofal preswyl
- taliadau uniongyrchol
- pontio o'r gwasanaethau plant i'r gwasanaethau oedolion
- cludiant i gleientiaid.

Mae timau anabledd dysgu awdurdodau lleol a thimau anabledd dysgu iechyd yn gweithio mewn partneriaeth i gynnig cymorth amlddisgyblaethol pan fo angen.

Mae rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau anabledd dysgu a ddarperir gan Gyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar gael ar eu gwefannau, drwy ddefnyddio'r dolenni canlynol:

- Gofal cymdeithasol ac anableddau - Abertawe
- Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Oedolion – Cyngor Castell-nedd Port Talbot (npt.gov.uk)
- Tîm Anabledd Plant – Cyngor Castell-nedd Port Talbot (npt.gov.uk)

## Sefydliadau'r Trydydd Sector

Mae amrywiaeth eang o sefydliadau'r trydydd sector yn y rhanbarth sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol ac yn cefnogi pobl ag anableddau dysgu mewn sawl maes, gan gynnwys:

- Eiriolaeth
- Cyfleoedd cydgynhyrchu
- Cyfleoedd dydd
- Cludiant cymunedol
- Cymorth TG
- Iechyd a lles
- Gweithgareddau cymunedol
- Swyddi, hyfforddiant a gwirfoddoli.

## Fforymau Darparwyr Anableddau Dysgu - Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot

Mae'r Fforymau hyn yn dod â sefydliadau, darparwyr gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n darparu gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu ac oedolion agored i niwed ynghyd i hyrwyddo a rhannu arfer gorau.

# ADRAN 3
# Ein blaenoriaethau

## Beth sy'n bwysig i bobl ag anableddau dysgu?

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn seiliedig ar yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym sydd o bwys iddynt. Mae'r blaenoriaethau isod wedi'u nodi o ymgysylltu â phobl ag anableddau dysgu, rhieni sy'n ofalwyr a theuluoedd a staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau anabledd dysgu. Mae pob blaenoriaeth wedi cael ei throi'n thema allweddol sydd wedi'i henwi gan y Fforwm Cyswllt Anabledd Dysgu.

Mae'r adran 'Yn digwydd yn y rhanbarth ar hyn o bryd' yn tynnu sylw at enghreifftiau o brosiectau, mentrau a gwaith sydd eisoes yn digwydd yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

Mae'r adran 'Dyma'r hyn y byddwn yn ei wneud' yn amlinellu ymrwymiad lefel uchel i sut y bydd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg yn ymateb i'r rhwystrau a nodwyd a'r newidiadau y mae eu hangen i wella gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu.

Mae'r adran 'Beth fyddai 'da' yn eich barn chi?' yn ddyfyniadau gan aelodau o'r Fforwm Cyswllt Anabledd Dysgu Rhanbarthol.



# Cludiant

**Mae pobl wedi dweud wrthym eu bod am i gludiant fod yn fwy diogel, yn haws i'w defnyddio ac ar gael yn amlach.**

| | |
|---|---|
| **Y rhwystrau a nodwyd** | ■ Nid yw pobl ag anabledd dysgu yn teimlo'n ddiogel wrth ddefnyddio cludiant cyhoeddus.<br>■ Nid yw cludiant cyhoeddus yn rheolaidd nac yn ddibynadwy.<br>■ Mae hygyrchedd i bobl ag anabledd dysgu yn wael - diffyg arwyddion sy'n hawdd eu darllen, mae amserlenni'n gymhleth, mynediad gwael at gadeiriau olwyn.<br>■ Nid yw staff cludiant cyhoeddus wedi'u hyfforddi i helpu pobl ag anableddau dysgu/anableddau eraill. |
| **Y newidiadau sydd eu hangen** | ■ Cludiant cyhoeddus dibynadwy, hygyrch a chysylltiedig i bawb p'un a oes ganddynt anabledd ai peidio gan roi sylw arbennig i wasanaeth gyda'r nos mewn ardaloedd gwledig.<br>■ Teithio cost isel i unrhyw un sy'n mynd i waith â thâl isel, cyfweliadau am swyddi neu gyfleoedd addysg i wrthbwyso costau cynyddol tanwydd a bwyd. |
| **Yn digwydd ar hyn o bryd yn y rhanbarth** | ■ Mae sawl opsiwn cludiant cymunedol ar gael i bobl yn Rhanbarth Gorllewin Morgannwg.<br>■ Mae Awel Aman Tawe, cwmni ynni cymunedol yn darparu cludiant i bobl ag anableddau dysgu a charfannau poblogaeth eraill yng Nghwm Nedd.<br>■ Mae Cynllun Mynediad at Waith yr Adran Gwaith a Phensiynau yn darparu cefnogaeth a chyllid grant i bobl ag anableddau neu gyflyrau iechyd meddwl sydd mewn swydd â thâl, sydd ar fin dechrau swydd neu ddychwelyd i swydd. Mae cymorth cludiant wedi'i gynnwys yn y cynllun. |
| **Dyma'r hyn y byddwn yn ei wneud** | ■ Gweithio gyda chwmnïau teithio i'w gwneud yn fwy ymwybodol o anableddau dysgu, er enghraifft darparu amserlenni ac arwyddion hawdd eu darllen.<br>■ Gweithio gyda phartneriaid i hwyluso darpariaeth cludiant cymunedol cost isel i bobl ag anabledd dysgu. |
| **Beth fyddai 'da' yn eich barn chi?** | ***Dwi eisiau gallu teithio i ymweld â ffrindiau ac ymweld â'm tref leol.*** |

# Cael y gofal a'r gefnogaeth gywir

**Mae pobl wedi dweud wrthym fod arnynt eisiau cefnogaeth fwy hyblyg a mwy o lais yn y gofal y maent yn ei dderbyn gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.**

### Y rhwystrau a nodwyd

- Gall profiadau pobl ag anabledd dysgu o'r system iechyd a gofal cymdeithasol fod yn negyddol.
- Mae rhwystredigaeth ynghylch y gefnogaeth gyfyngedig sydd ar gael, ac ymddengys ei bod yn cael ei threfnu o amgylch anghenion y gwasanaeth yn hytrach nag anghenion yr unigolyn.
- Mae gwasanaethau'n aml yn gyfyngedig o ran argaeledd ac nid ydynt yn hyblyg, a rhaid ymladd am y gwasanaethau sydd ar gael.
- Mae hyfforddiant staff i ddiwallu anghenion yr unigolyn yn aml yn teimlo'n annigonol.
- Mae Taliadau Uniongyrchol a chyflogi CPau wedi creu problemau i rai.
- Mae cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl ac iechyd cyffredinol yn anodd.
- Diffyg cefnogaeth iechyd a lles gan weithwyr proffesiynol, h.y., coginio, ymarfer corff.
- Rhestrau aros hir ac oedi o ran mynediad at ofal iechyd.
- Rhwystrau TG – Mae mynediad at y rhyngrwyd a sgiliau TG yn dod yn fwy poblogaidd er mwyn cael mynediad at ofal iechyd, rhywbeth na fydd efallai gan lawer o bobl ag anabledd dysgu.

### Y newidiadau sydd eu hangen

- Cefnogaeth wedi'i hadolygu'n rheolaidd sydd wedi'i theilwra i anghenion yr unigolyn i ddarparu bywyd llawn yn seiliedig ar y pethau y mae'r person yn eu mwynhau yn y gymuned.
- Mwy o ddychymyg a hyblygrwydd yn y ffordd y darperir gofal cymdeithasol gyda mwy o gefnogaeth i bobl gael mynediad i'r gymuned.
- Gwasanaeth integredig lle mae anghenion iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu diwallu'n llawn, lle rhoddir blaenoriaeth i'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn.
- Defnyddio technoleg yn fwy i gefnogi pobl i gymryd rhan yn eu cynlluniau cymorth.
- Cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar y teulu sy'n hygyrch y tu allan i oriau swyddfa.
- Gwneud gwasanaethau iechyd meddwl yn fwy hygyrch i bobl ag anabledd dysgu.
- Mwy o fynediad i a gwybodaeth am wasanaethau atodol a meddygon teulu gan gynnwys Archwiliadau Iechyd Blynyddol.
- Hyrwyddo ymddygiadau ffordd gadarnhaol a hygyrch o fyw fel bwyta'n iach ac ymarfer corff a chyfleoedd hygyrch yn eu cymuned.
- Mynediad at ofal iechyd anabledd dysgu arbenigol sydd o ansawdd uchel, yn agos i'r cartref ac sy'n diwallu anghenion yr unigolyn orau.
- Gwell mynediad at wasanaethau eiriolaeth, gan gynnwys eiriolaeth heb gyfarwyddyd, i sicrhau bod unigolion yn cael eu grymuso i gymryd rhan lawn yn y materion sy'n effeithio arnynt.

### Yn digwydd ar hyn o bryd yn y rhanbarth

- Mae pobl ag anabledd dysgu yn cymryd rhan lawn wrth ddatblygu eu cynlluniau gofal a chefnogaeth, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn seiliedig ar gryfderau a gallu'r unigolyn, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Mae timau Taliadau Uniongyrchol i'w cael yn Abertawe a Chyngor Castell-nedd Port Talbot.
- Mae gwaith Partneriaeth Ranbarthol wedi bod ar waith yng Ngorllewin Morgannwg ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ers 2016, gan ddod â byrddau iechyd, awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector, gofalwyr a phobl â phrofiad bywyd at ei gilydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl yn y rhanbarth.
- Mae'r gefnogaeth yn y rhanbarth y tu allan i oriau swyddfa'n cynnwys Galw Iechyd Cymru, Timau Dyletswydd Brys y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu.

**Yn digwydd ar hyn o bryd yn y rhanbarth**

- Lansiwyd Strategaeth Lles Emosiynol a Meddyliol Gorllewin Morgannwg yn ddiweddar. Mae hygyrchedd gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pob carfan o'r boblogaeth wedi'i nodi fel newid sydd ei angen a bydd yn cael ei gynnwys fel rhan o gynllun gweithredu ategol y strategaeth.
- Mae gan feddygfeydd yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot gofrestrau anabledd dysgu a ddefnyddir i sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu dros 14 oed yn cael y gefnogaeth gywir yn y ffyrdd cywir.
- Mae practisau Meddygon Teulu yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn darparu archwiliadau iechyd blynyddol i bobl ag anabledd dysgu dros 14 oed.
- Mae Sefydliadau'r Trydydd Sector lleol a chenedlaethol gan gynnwys Eiriolaeth Eich Llais ac Anabledd Dysgu Cymru yn hyrwyddo, yn annog ac yn cefnogi pobl ag anableddau dysgu i gofrestru ar y gofrestr anabledd dysgu a chael mynediad at archwiliadau iechyd blynyddol.
- Mae Gwelliant Cymru yn darparu Pecynnau Adnoddau Gofal Sylfaenol hawdd eu darllen ar gyfer archwiliadau iechyd blynyddol.

**Dyma'r hyn y byddwn yn ei wneud**

- Casglu data sylfaen unigolion ag anabledd dysgu sy'n derbyn gofal a chefnogaeth i ddeall anghenion y boblogaeth ar draws y rhanbarth yn well.
- Sicrhau bod pobl ag anabledd dysgu yn parhau i gymryd rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu eu cynlluniau gofal a chefnogaeth, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn seiliedig ar gryfderau a galluoedd yr unigolyn, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer cydweithio rhwng y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'u timau yn cael eu cydleoli.
- Datblygu polisi gweithredol ar y cyd a phrotocol gweithio ar y cyd ar gyfer staff anabledd dysgu ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cyfuno cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi gweithio integredig.
- Darparu gwybodaeth hawdd ei darllen a hygyrch i helpu pobl ag anabledd dysgu i gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o archwiliadau iechyd blynyddol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu
- Cynyddu'r gefnogaeth sydd ar gael i leihau methiannau mewn lleoliadau byw yn y gymuned i bobl ag anghenion cymhleth.
- Cysylltu â Bwrdd Rhaglen Ddigidol Gorllewin Morgannwg i archwilio sut y gall technoleg ddarparu cefnogaeth i unigolion ag anabledd dysgu.
- Cysylltu â Bwrdd Rhaglen Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl Gorllewin Morgannwg i sicrhau bod pobl ag anabledd dysgu yn cael eu cefnogi.
- Mapio cyfleoedd ffordd iach o fyw presennol yn y rhanbarth a nodi bylchau.
- Cydgynhyrchu'r gefnogaeth sydd ei angen gyda phobl ag anableddau dysgu a sut y gellid darparu gwasanaethau.
- Mapio'r gwasanaethau eiriolaeth cyfredol sydd ar gael yn y rhanbarth.
- Ymchwilio i argaeledd hyfforddiant y CCUHP (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau) a'r Model Cymdeithasol o Anabledd a sut y gellir cyflwyno hyn i staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau anabledd dysgu ar draws y rhanbarth.
- Hyrwyddo'r defnydd o becyn Addysg i Deuluoedd Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol Gydol Oes, offeryn sydd ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru â'r bwriad o gynyddu sgiliau a grymuso teuluoedd ledled Cymru i gefnogi unigolion ag anabledd dysgu.

**Beth fyddai 'da' yn eich barn chi?**

***Cael mynediad haws at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.***

# Fy nghymuned

**Mae pobl wedi dweud wrthym fod arnynt eisiau bod yn rhan o'u cymuned leol a theimlo'n ddiogel.**

| | |
|---|---|
| **Y rhwystrau a nodwyd** | ■ Gall pobl ag anableddau dysgu brofi gwahaniad oddi wrth y gymuned ac ymatebion negyddol.<br>■ Gall hygyrchedd fod yn wael yn y gymuned sy'n atal pobl ag anabledd dysgu rhag gallu cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau. |
| **Y newidiadau sydd eu hangen** | ■ Helpu pobl ag anabledd dysgu i ymdoddi'n fwy i'r gymuned, bod yn fwy gweladwy a chael eu gwerthfawrogi'n fwy ynddi drwy fwy o hyfforddiant ymwybyddiaeth a digwyddiadau cynhwysiad, gan gynnwys defnyddwyr cadair olwyn.<br>■ Darparu gwasanaethau dydd yng nghanol y gymuned, a pheidio â chael eu hymwahanu.<br>■ Mwy o ddewis o weithgareddau ystyrlon yn y gymuned i fod ar gael i bobl ag anableddau dysgu.<br>■ Mewn partneriaeth e.e. yr heddlu, ysgolion, grwpiau cymunedol yn mynd i'r afael â bwlio a gwahaniaethu ar sail anabledd i wneud cymunedau'n fannau cyfarfod diogel, croesawgar a chwbl hygyrch.<br>■ Hyrwyddo annibyniaeth ac integreiddio cymunedol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.<br>■ Cefnogi cyfleoedd i unigolion ag anabledd dysgu gymryd rhan mewn gweithgareddau, digwyddiadau cymdeithasol a gweithdai. |
| **Yn digwydd ar hyn o bryd yn y rhanbarth** | ■ Ar hyn o bryd mae detholiad o wasanaethau dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ac anghenion iechyd cymhleth yn rhanbarth Gorllewin Morgannwg.<br>■ Mae Sefydliadau Trydydd Sector yn y rhanbarth sy'n darparu detholiad o weithgareddau yn y gymuned ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.<br>■ Mae Cydlynwyr Ardaloedd Lleol yng Nghyngor Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn gweithio mewn cymunedau i helpu unigolion i wneud cysylltiadau newydd, cymryd rhan mewn grwpiau a gweithgareddau, gwneud cyfraniadau i'r gymuned etc. |
| **Dyma'r hyn y byddwn yn ei wneud** | ■ Mapio grwpiau gwasanaethau cymunedol/dydd presennol i bobl ag anabledd dysgu a chyfleoedd cymunedol eraill i ddeall ble mae'r bylchau; yn dilyn hyn, bydd gwaith yn cael ei wneud i weld sut y gellir llenwi'r bylchau hynny a sefydlu mwy o wasanaethau yng nghanol cymunedau.<br>■ Cynyddu cyfleoedd i ddatblygu grwpiau cymdeithasol i hybu cyfeillgarwch a chefnogaeth cymheiriaid yn y gymuned leol drwy'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol (CIR).<br>■ Datblygu'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol i alluogi cefnogaeth grŵp ac a rennir.<br>■ Cysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot sy'n cynnwys aelodaeth gan y comisiynydd heddlu a throsedd lleol, y gwasanaeth tân ac achub a sefydliadau gwirfoddol i dynnu sylw at faterion sy'n effeithio ar bobl ag anabledd dysgu yn eu cymunedau lleol. |



**Beth fyddai 'da' yn eich barn chi?**

*Rhagor o weithgareddau cymunedol, e.e., diwrnodau hwyl, diwrnodau elusennol, gwneud defnydd o'r adnoddau lleol.*

# Dysgu Gydol Oes

**Mae pobl wedi dweud wrthym eu bod am gael rhagor o gyfleoedd a chefnogaeth gyda chyfleoedd dysgu a hyfforddiant.**

| | |
|---|---|
| **Y rhwystrau a nodwyd** | ■ Diffyg opsiynau addysg i bobl ag anableddau dysgu pan fyddant yn oedolion. |
| **Y newidiadau sydd eu hangen** | ■ Annog dysgu ar ôl 18 oed.<br>■ Galluogi cynhwysiad digidol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.<br>■ Cyflwyno Rhwydwaith Darparwyr Dysgu i gyfleoedd agored ar ddysgu oedolion, gan gydweithio i ategu adnoddau a darpariaeth. |
| **Yn digwydd ar hyn o bryd yn y rhanbarth** | ■ Mae cyfleoedd i ddysgu oedolion yn y rhanbarth, sy'n darparu cefnogaeth ychwanegol gan gynnwys Addysg Oedolion Cymru, Coleg Gŵyr Abertawe, a Choleg Castell-nedd Port Talbot.<br>■ Mae'r Bartneriaeth Ddysgu Ranbarthol (PDdR) yn bartneriaeth sy'n dod â phartneriaid addysg ac adfywio ynghyd i helpu i ddarparu dyfodol gwell i ddysgwr a dysgwr posib ar draws rhanbarth De-orllewin Cymru[16].<br>■ Mae Partneriaeth Dysgu Oedolion Abertawe yn gweithio i ddarparu ystod eang o gyrsiau achrededig a rhai heb eu hachredu ar draws Abertawe i ddiwallu anghenion amrywiol dysgwyr[17].<br>■ Mae Bspoked Enterprises yng Nghastell-nedd Port Talbot yn wasanaeth cyflogaeth a hyfforddiant i oedolion ag anableddau amrywiol. |
| **Dyma'r hyn y byddwn yn ei wneud** | ■ Gweithio gyda phartneriaid i nodi darpariaeth ar gyfer cyfleoedd i ddatblygu sgiliau mwy ymarferol (e.e., coginio, rheolaeth ariannol, sgiliau digidol, teithio etc.).<br>■ Cynnwys pobl ag anableddau dysgu yn Strategaeth Ddigidol Gorllewin Morgannwg.<br>■ Mapio cyfleoedd addysg bellach/dysgu oedolion ar draws y rhanbarth.<br>■ Cysylltu â Pholisi Pontio Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg ar gyfer darparu cyfleoedd hyd at 25 oed, o dan y Ddeddf ADYTA.<br>■ Cysylltu â Phartneriaethau Dysgu yn y rhanbarth i gael rhagor o wybodaeth am gefnogaeth i unigolion ag anabledd dysgu. |
| **Beth fyddai 'da' yn eich barn chi?** | ***Hoffwn ddewis cwrs sydd o ddiddordeb i mi.*** |

[16] Partneriaethau - Grŵp Colegau CNPT
[17] Partneriaeth Dysgu Oedolion Abertawe (learningswansea.wales/adre)

# Swyddi a Gwirfoddoli

**Mae pobl wedi dweud wrthym fod arnynt eisiau mwy o gyfleoedd a chefnogaeth i ddod o hyd i gyfleoedd cyflogaeth a gwirfoddoli addas.**

| | |
|---|---|
| **Y rhwystrau a nodwyd** | ■ Mae pobl ag anableddau dysgu'n teimlo nad oes unrhyw ddyhead i allu cael swydd oherwydd:<br>▪ Diffyg hyfforddiant/profiad gwaith<br>▪ Swyddi â thâl isel neu rai gwirfoddol yw'r unig opsiynau<br>▪ Diffyg cefnogaeth i ddod o hyd i swydd/yn y gweithle<br>▪ Pobl yn gweld eu hanableddau'n unig<br>▪ Goblygiadau ar fudd-daliadau |
| **Y newidiadau sydd eu hangen** | ■ Mwy o gyfleoedd gwaith gwirfoddol a gwaith â thâl i ganiatáu i bobl ag anabledd dysgu ddefnyddio'u sgiliau yn y gweithle.<br>■ Cefnogaeth/Hyfforddiant i alluogi pobl ag anabledd dysgu i gael mynediad at waith, hyfforddiant addysg neu wirfoddoli yn eu hardaloedd lleol.<br>■ Creu disgwyliad yn gynnar y bydd person ag anabledd dysgu'n cael cyfleoedd am gyflogaeth.<br>■ Nodi, hyrwyddo a chefnogi cyflogwyr a sefydliadau busnes i ddeall y rheini ag anableddau dysgu'n well a gweithio'n dda gyda hwy.<br>■ Cynyddu opsiynau cefnogi addas i alluogi mwy o swyddi a chyfleoedd gwirfoddol. |
| **Yn digwydd ar hyn o bryd yn y rhanbarth** | ■ Mae'r Gymuned Gwasanaethau Gwirfoddol yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn cynnig cefnogaeth a chyngor unigol i bobl ag anableddau dysgu a hoffai wirfoddoli.<br>■ Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn dyfarnu symbol 'Hyderus o ran Anabledd' gyda dau symbol tic i gyflogwyr sydd wedi gwneud ymrwymiadau i gyflogi, cadw a datblygu galluoedd staff anabl.<br>■ Mae Cynllun Mynediad at Waith yr Adran Gwaith a Phensiynau yn darparu cefnogaeth a chyllid grant i bobl anabl neu â chyflyrau iechyd meddwl sydd mewn swydd â thâl, sydd ar fin dechrau swydd neu ddychwelyd i swydd.<br>■ Mae Ymgynghorwyr Cyflogaeth Anabledd i'w cael yn y Ganolfan Byd Gwaith sy'n gallu helpu pobl â chyflyrau iechyd a/neu anableddau dysgu i gael gwaith, darparu cyngor a chefnogaeth a chynnal asesiad cyflogaeth.<br>■ Mae timau Cymunedau am Waith a Mwy yn Abertawe a Chyngor Castell-nedd Port Talbot yn darparu cymorth cyflogaeth a chyngor arbenigol ynghyd â mentora dwys i bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y farchnad lafur, gan gynnwys pobl anabl. Mae ganddynt Hyrwyddwyr Anabledd a gallant ddarparu mynediad at hyfforddiant, chwalu rhwystrau i gyflogaeth, cyfeirio at sefydliadau eraill etc.<br>■ Mae Gwasanaeth Datblygu Gwaith Cyngor Abertawe mewn partneriaeth â Crest yn cynnal Ciosg Parc Fictoria i ddarparu cyfleoedd i oedolion ddatblygu sgiliau a hyder er mwyn dod â hwy'n yn agosach at gyflogaeth. |

**Dyma'r hyn y byddwn yn ei wneud**

- Nodi cyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth gyda'r sefydliadau partner.
- Mapio sefydliadau sy'n darparu cyfleoedd gwirfoddoli, hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ag anabledd dysgu ar draws y rhanbarth.
- Mapio sefydliadau priodol sy'n hyrwyddo mentora cymheiriaid a cefnogaeth cyflogaeth i bobl ag anabledd dysgu.
- Cynnwys pobl ag anabledd dysgu wrth ddatblygu Strategaeth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg.
- Gweithio gyda'r trydydd sector a Chynghorau Gwirfoddol Cymunedol i gynyddu'r cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael ar draws y rhanbarth.

**Beth fyddai 'da' yn eich barn chi?**

***Mwy o gefnogaeth a mynediad at gyfleoedd mewn sefydliadau fydd yn deall.***



# Fy nghartref

**Mae pobl wedi dweud wrthym eu bod am gael mwy o ddewis o ran ble i fyw, gan ganiatáu iddynt fod yn annibynnol ac yn ddiogel ac yn agos i'w rhwydweithiau cefnogi.**

### Y rhwystrau a nodwyd

- Mae gan bobl ag anabledd dysgu ddewis cyfyngedig o ran ble maent yn byw a chael cartref sy'n caniatáu iddynt fod yn annibynnol ac yn ddiogel.
- Mae diffyg opsiynau llety sy'n agos i'r cartref ac amseroedd aros hir yn ei gwneud hi'n anodd dod o hyd i gartref addas i ystyried anghenion ac amgylchiadau unigol.
- Cefnogaeth a gwybodaeth gyfyngedig wrth bontio o symud i fyw annibynnol neu â chymorth.

### Y newidiadau sydd eu hangen

- Mae angen cefnogaeth les, llwybrau cliriach a realistig, ac opsiynau fel y gall pobl gynllunio, yn hytrach nag ymateb i argyfwng.
- Angen cartrefi addasol mewn stadau newydd a lleoliadau amrywiol sy'n gysylltiedig â grwpiau cymunedol eraill, h.y., teuluoedd, pobl hŷn, myfyrwyr.
- Cynyddu'r mathau o lety sydd ar gael i bobl ag anabledd dysgu.
- Sicrhau bod ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei defnyddio wrth gomisiynu gweithgareddau i sicrhau dewis o dai mewn ardal sy'n bwysig ac yn berthnasol i'r unigolyn.

### Mae'n digwydd ar hyn o bryd yn y rhanbarth

- Mae polisi pontio plant i oedolion rhanbarthol wrthi'n cael ei ddatblygu, yn unol â Deddf ADYTA 2018. Bydd y polisi pontio'n cynnwys pontio o un math o lety i un arall.
- Mae Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg yn nodi angen llety rhanbarthol yn y dyfodol ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth, a fydd yn dod drwy gyfnod pontio o 14 oed.
- Mae opsiynau tai ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, gan gynnwys byw â chymorth, byw'n annibynnol, byw'n annibynnol gyda chymorth lefel isel, gofal preswyl, Cysylltu Bywydau etc.
- Mae datblygiadau llety newydd ar y gweill yn lleol yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ac yn rhanbarthol.
- Mae Cynllun Cyfalaf Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg wedi'i lansio sy'n nodi llwybr ar gyfer anghenion llety i bobl ag anabledd dysgu a charfannau poblogaeth eraill.

### Dyma'r hyn y byddwn yn ei wneud

- Gwella'r broses bontio wrth symud o un math o lety i un arall.
- Ymchwilio i'r posibilrwydd o gefnogaeth i ficro-sefydliadau neu grwpiau o deuluoedd sydd am ddod at ei gilydd i ddarparu llety addas.
- Gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a darparwyr gofal i ddatblygu gwahanol fathau o lety, gofal a chefnogaeth a all ddiwallu amrywiaeth o anghenion lle gall y gefnogaeth gael ei haddasu yn ôl y galw, gan gynnwys pan fydd argyfwng.
- Datblygu dulliau gwell o gasglu data i nodi anghenion llety ar gyfer pobl ifanc yn gynharach
- Gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu llety a chymorth a fydd yn galluogi pobl sy'n byw y tu allan i'r sir neu sydd mewn gwelyau ysbyty tymor hir ddychwelyd i'w hardal leol.
- Gweithio gyda darparwyr cartrefi preswyl a nyrsio ledled y rhanbarth a'u cefnogi i sicrhau bod gan eu staff y sgiliau a'r wybodaeth gywir i allu gofalu am bobl ag anabledd dysgu sydd hefyd â diagnosis iechyd meddwl, gan gynnwys dementia.
- Parhau i weithio gydag asiantaethau partner i ddatblygu'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol.

| | |
|---|---|
| **Dyma'r hyn y byddwn yn ei wneud** | ■ Datblygu a gweithredu cynllun gweithredu rhanbarthol ar gyfer gweithredu'r fframwaith lleihau arferion cyfyngol [Fframwaith lleihau arferion cyfyngol \| LLYW.CYMRU](). <br> ■ Cydgynhyrchu strategaethau comisiynu llety rhanbarthol a sicrhau bod ymgysylltiad yn cael ei gynnwys yn natblygiad Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad. |
| **Beth fyddai 'da' yn eich barn chi?** | ***Cael lle diogel i fyw, sy'n addas ar gyfer fy anghenion.*** |

# Gwneud fy mhenderfyniadau fy hun a chael dweud fy marn

**Mae pobl wedi dweud wrthym fod arnynt eisiau i bobl gyfathrebu â hwy, a'u bod am gael yr wybodaeth ddiweddaraf, cymryd rhan mewn penderfyniadau a gwneud dewisiadau am eu bywydau.**

| | |
|---|---|
| **Y rhwystrau a nodwyd** | ■ Mae pobl ag anabledd dysgu'n teimlo bod y dewisiadau yn eu bywydau'n gyfyngedig, gan gynnwys perthnasoedd, arian, addysg, tai etc. <br> ■ Ychydig o gefnogaeth wedi'i theilwra a gwybodaeth sydd ar gael i rymuso pobl ag anabledd dysgu i wneud eu dewisiadau eu hunain. |
| **Y newidiadau sydd eu hangen** | ■ Mae angen clywed lleisiau unigol, ond yn yr un modd mae angen hysbysu a chefnogi'r lleisiau hynny briodol. <br> ■ Cael systemau a rennir ar gyfer mesur canlyniadau personol gyda phobl a datblygu ymagwedd fwy penodol sy'n seiliedig ar hawliau. <br> ■ Mwy o gyfleoedd cyd-gynhyrchu rhanbarthol a lleol amrywiol i bobl ag anabledd dysgu i wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. |
| **Yn digwydd ar hyn o bryd yn y rhanbarth** | ■ Mae staff y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio mewn ffordd lle mae ymarfer yn canolbwyntio ar ganlyniadau, gan sicrhau bod llais y plentyn, yr oedolyn, y rhiant a'r gofalwr yn cael ei nodi a'i ymgorffori yn y cynlluniau, yr adolygiadau a'r asesiadau sy'n berthnasol i'r unigolyn. <br> ■ Mae'r Fforwm Cyswllt Anabledd Dysgu Rhanbarthol wedi'i sefydlu a bydd yn parhau i ddatblygu cyfleoedd cydgynhyrchu i oedolion, plant a phobl ifanc yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. <br> ■ Mae cyfleoedd cydgynhyrchu ac ymgysylltu lleol ar waith i bobl ag anableddau dysgu yn y rhanbarth, gan gynnwys Grŵp Cyswllt Anabledd Cyngor Abertawe, grŵp llywio 'Gwell gyda'n gilydd' Castell-nedd Port Talbot. <br> ■ Mae cefnogaeth eiriolaeth ar gael i bobl ag anabledd dysgu yn y rhanbarth; mae Eiriolaeth Eich Llais a sefydliadau eraill yn darparu eiriolaeth annibynnol yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. |

**Dyma'r hyn y byddwn yn ei wneud**

- Bydd pob thema yn cynnwys y gwaith hwn i sicrhau bod gan bobl ag anabledd dysgu lais yn y materion sy'n effeithio arnynt.
- Datblygu a gwreiddio'r Fforwm Cyswllt Anabledd Dysgu Rhanbarthol i ddylanwadu ar y Bwrdd Lles ac Anableddau Dysgu Rhanbarthol.
- Cynyddu cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu gymryd rhan yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- Mapio cyfleoedd cydgynhyrchu lleol yn y rhanbarth a chysylltu â phrosiectau cydgynhyrchu lleol.
- Defnyddio Fframwaith, Pecyn Cymorth a Siarter Grŵp Cydgynhyrchu Gorllewin Morgannwg i sicrhau bod y gwaith o fewn y Rhaglen Ranbarthol yn cynnwys pobl ag anableddau dysgu yn barhaus.
- Sicrhau cyfranogiad rhieni/gofalwyr ym Mwrdd Rhanbarthol y Rhaglen Lles ac Anableddau Dysgu.

**Beth fyddai 'da' yn eich barn chi?**

***Cael dewisiadau i fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arna' i.***



# ADRAN 4
# Cyflawni ein blaenoriaethau

## Sut y byddwn yn cyflawni ein strategaeth?

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth a darparu gwasanaethau sy’n seiliedig ar yr hyn sy’n bwysig i bobl ag anableddau dysgu, byddwn yn cydgynhyrchu cynlluniau gweithredu manwl ar gyfer pob thema allweddol gyda’n holl randdeiliaid.

Bydd y cynlluniau’n cynnwys camau gweithredu i wella cefnogaeth drwy gydol bywydau pobl a chânt eu datblygu drwy weithdai sy’n cynnwys pobl ag anableddau dysgu a’u rhieni/gofalwyr, staff o fewn y GIG, awdurdodau lleol, a’r Trydydd Sector.

Caiff cynlluniau gweithredu eu rhoi ar waith ar y cyd, ac adroddir am gynnydd drwy’r Fforwm Cyswllt Anabledd Dysgu, Bwrdd Lles ac Anabledd Dysgu Gorllewin Morgannwg, ac i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg.

Mae’r strategaeth am bum mlynedd; fodd bynnag, caiff camau gweithredu eu hadolygu’n barhaus i sicrhau ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion y boblogaeth anabledd dysgu yn y rhanbarth.

Y nod yw bod gan bob unigolyn ag anabledd dysgu sy’n byw yn rhanbarth Gorllewin Morgannwg fynediad at gyfleoedd teg a gwasanaethau cydgysylltiedig.

Drwy sefydlu system integredig sy’n cefnogi pobl ag anabledd dysgu, maent yn pontio’n ddi-dor ar draws y system, gan roi cyfle iddynt fyw mor annibynnol â phosib yn eu cymuned.

Mae’r tabl canlynol yn rhestru’r amcanion allweddol y bwriadwn eu cyflawni er mwyn cyflawni ein gweledigaeth. Mae trefn y themâu allweddol wedi’i blaenoriaethu drwy ymgysylltu â phobl ag anabledd dysgu, rhieni sy’n ofalwyr a’u teuluoedd, ochr yn ochr â staff sy’n gweithio mewn gwasanaethau anabledd dysgu. Chwaraeodd aelodau o’r Fforwm Cyswllt Anabledd Dysgu ran sylweddol hefyd wrth flaenoriaethu’r themâu gyda’r amserlenni.



THEMA ALLWEDDOL

# 1 | Cludiant

## AMCANION

- Gweithio gyda chwmnïau teithio i'w gwneud yn fwy ymwybodol o anabledd dysgu, er enghraifft darparu amserlenni ac arwyddion hawdd eu deall.
- Gweithio gyda phartneriaid i hwyluso darpariaeth cludiant cymunedol cost isel i bobl ag anabledd dysgu.

## AMSERLENNI

Ionawr 24 – Mehefin 24



THEMA ALLWEDDOL

# 2 | Cael y gofal a'r gefnogaeth gywir

## AMCANION

- Casglu data sylfaen unigolion ag anabledd dysgu sy'n derbyn gofal a chefnogaeth i ddeall anghenion y boblogaeth ar draws y rhanbarth yn well.
- Sicrhau bod pobl ag anabledd dysgu yn parhau i gymryd rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu eu cynlluniau gofal a chefnogaeth, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn seiliedig ar gryfderau a gallu'r unigolyn, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer cydweithio rhwng y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'u timau yn cael eu cydleoli.
- Datblygu polisi gweithredol ar y cyd a phrotocol gweithio ar y cyd ar gyfer staff anabledd dysgu ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cyfuno cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi gweithio integredig.
- Darparu gwybodaeth hawdd ei darllen a hygyrch i helpu pobl ag anabledd dysgu i gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o archwiliadau iechyd blynyddol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.
- Cynyddu'r gefnogaeth sydd ar gael i leihau methiannau mewn lleoliadau byw yn y gymuned i bobl ag anghenion cymhleth.
- Cysylltu â Bwrdd Rhaglen Ddigidol Gorllewin Morgannwg i archwilio sut y gall technoleg ddarparu cefnogaeth i unigolion ag anabledd dysgu.
- Cysylltu â Bwrdd Rhaglen Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl Gorllewin Morgannwg i sicrhau bod pobl ag anabledd dysgu yn cael eu cefnogi.
- Mapio cyfleoedd ffordd iach o fyw presennol yn y rhanbarth a nodi bylchau.
- Cydgynhyrchu'r gefnogaeth sydd ei hangen gyda phobl ag anabledd dysgu a sut y gellid darparu gwasanaethau.
- Mapio'r gwasanaethau eiriolaeth cyfredol sydd ar gael yn y rhanbarth
- Ymchwilio i argaeledd hyfforddiant y CCUHP (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau) a'r Model Cymdeithasol o Anabledd a sut y gellir cyflwyno hyn i staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau anabledd dysgu ar draws y rhanbarth.

## AMSERLENNI

Gorffennaf 24 – Mehefin 25

**THEMA ALLWEDDOL**

# 3 | Fy nghymuned

## AMCANION

- Mapio grwpiau gwasanaethau cymunedol/dydd presennol i bobl ag anabledd dysgu a chyfleoedd cymunedol eraill i ddeall ble mae'r bylchau; yn dilyn hyn, bydd gwaith yn cael ei wneud i weld sut y gellir llenwi'r bylchau hynny a gellir sefydlu mwy o wasanaethau yng nghanol cymunedau.
- Cynyddu cyfleoedd i ddatblygu grwpiau cymdeithasol i hybu cyfeillgarwch a chefnogaeth cymheiriaid yn y gymuned leol drwy'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol (CIR).
- Datblygu'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol i alluogi cefnogaeth a rennir a chefnogaeth grŵp.
- Cysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot sy'n cynnwys aelodaeth o swyddfa comisiynydd yr heddlu a throseddu, y gwasanaeth tân ac achub a sefydliadau gwirfoddol lleol i dynnu sylw at faterion sy'n effeithio ar bobl ag anabledd dysgu o fewn eu cymunedau lleol.

## AMSERLENNI

Gorffennaf 25 – Mehefin 26



THEMA ALLWEDDOL

# 4 | Dysgu Gydol Oes

## AMCANION

- Gweithio gyda phartneriaid i nodi darpariaeth ar gyfer cyfleoedd i ddatblygu sgiliau mwy ymarferol (e.e., coginio, rheolaeth ariannol, sgiliau digidol, teithio etc.).
- Cynnwys pobl ag anableddau dysgu yn Strategaeth Digidol Gorllewin Morgannwg.
- Hyrwyddo'r defnydd o becyn Addysg i Deuluoedd Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol Gydol Oes, offeryn sydd ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru â'r bwriad o gynyddu sgiliau a grymuso teuluoedd ledled Cymru i gefnogi unigolion ag anabledd dysgu.
- Mapio cyfleoedd addysg bellach/dysgu oedolion ar draws y rhanbarth.
- Cysylltu â Pholisi Pontio Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg ar gyfer darparu cyfleoedd hyd at 25 oed, o dan y Ddeddf ADYTA.
- Cysylltu â Phartneriaethau Dysgu yn y rhanbarth i gael rhagor o wybodaeth am gefnogaeth i unigolion ag anabledd dysgu.

## AMSERLENNI

Gorffennaf 26 – Mehefin 27



## THEMA ALLWEDDOL
# 5 | Swyddi a Gwirfoddoli

### AMCANION

- Nodi cyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth gyda'r sefydliadau partner.
- Mapio sefydliadau sy'n darparu cyfleoedd gwirfoddoli, hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ag anabledd dysgu ar draws y rhanbarth.
- Mapio sefydliadau priodol sy'n hyrwyddo mentora cymheiriaid a chefnogaeth cyflogaeth i bobl ag anabledd dysgu.
- Cynnwys pobl ag anabledd dysgu wrth ddatblygu Strategaeth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg.
- Gweithio gyda'r trydydd sector a Chynghorau Gwirfoddol Cymunedol i gynyddu'r cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael ar draws y rhanbarth.

### AMSERLENNI

Gorffennaf 27 – Mehefin 28



THEMA ALLWEDDOL

# 6 | Fy nghartref

## AMCANION

- Gwella’r broses bontio wrth symud o un math o lety i un arall.
- Ymchwilio i’r posibilrwydd o gefnogaeth ar gyfer micro-sefydliadau neu grwpiau o deuluoedd sydd am ddod at ei gilydd i ddarparu llety addas.
- Gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a darparwyr gofal i ddatblygu gwahanol fathau o lety, gofal a chefnogaeth a all ddiwallu amrywiaeth o anghenion lle gall cefnogaeth addasu i fyny ac i lawr yn ôl yr angen gan gynnwys pan fydd mewn argyfwng.
- Datblygu dulliau gwell o gasglu data i nodi anghenion llety i bobl ifanc yn gynharach
- Gweithio gyda’n gilydd i ddatblygu llety a chefnogaeth a fydd yn galluogi pobl sy’n byw y tu allan i’r sir neu sydd mewn gwelyau ysbyty tymor hir i ddychwelyd i’w hardal leol.
- Gweithio gyda darparwyr cartrefi preswyl a nyrsio ledled y rhanbarth a’u cefnogi i sicrhau bod gan eu staff y sgiliau a’r wybodaeth gywir i allu gofalu am bobl ag anabledd dysgu sydd hefyd â diagnosis iechyd meddwl, gan gynnwys dementia.
- Parhau i weithio gydag asiantaethau partner i ddatblygu’r defnydd o dechnoleg gynorthwyol.
- Datblygu a gweithredu cynllun gweithredu rhanbarthol ar gyfer rhoi’r fframwaith lleihau arferion cyfyngol ar waith Fframwaith lleihau arferion cyfyngol | LLYW. CYMRU
- Cydgynhyrchu strategaethau comisiynu llety rhanbarthol a sicrhau bod ymgysylltiad yn cael ei gynnwys wrth ddatblygu Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad.

## AMSERLENNI

Gorffennaf 28 – Mehefin 29



THEMA ALLWEDDOL

# 7 | Gwneud fy mhenderfyniadau fy hun a chael dweud fy marn

## AMCANION

- Bydd pob thema yn cynnwys y gwaith hwn i sicrhau bod gan bobl ag anabledd dysgu lais yn y materion sy'n effeithio arnynt.
- Datblygu a gwreiddio'r Fforwm Cyswllt Anabledd Dysgu Rhanbarthol i ddylanwadu ar y Bwrdd Lles ac Anableddau Dysgu Rhanbarthol.
- Cynyddu cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu gymryd rhan yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- Mapio cyfleoedd cydgynhyrchu lleol yn y rhanbarth a chysylltu â phrosiectau cydgynhyrchu lleol.
- Defnyddio Fframwaith, Pecyn Cymorth a Siarter Grŵp Cydgynhyrchu Gorllewin Morgannwg i sicrhau bod y gwaith o fewn y Rhaglen Ranbarthol yn cynnwys pobl ag anableddau dysgu yn barhaus.
- Sicrhau cyfranogiad rhieni/gofalwyr ym Mwrdd Rhanbarthol y Rhaglen Lles ac Anableddau Dysgu.

## AMSERLENNI

Parhaus





## Sut y byddwn yn gwybod bod y strategaeth yn gwneud gwahaniaeth?

Ar gyfer cynllun gweithredu pob thema allweddol, bydd data sylfaen sefydledig a setiau addas o ddangosyddion yn cael eu cydgynhyrchu ar ddechrau datblygiad pob thema i sicrhau bod mesurau'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Bydd amrywiaeth o ddulliau yn cael eu defnyddio fel y nodwyd gan bob grŵp prosiect thema, gan gynnwys arolygon, grwpiau ffocws, holiaduron, astudiaethau achos a straeon digidol i fesur canlyniadau ac allbynnau.

Pan fydd y mesurau wedi'u sefydlu a'r cynllun gweithredu'n mynd rhagddo, byddwn yn ymgysylltu â'r boblogaeth anabledd dysgu'n flynyddol drwy'r Fforwm Cyswllt Anabledd Dysgu i ddarganfod a ydym wedi cyflawni ein nodau ar gyfer y strategaeth.

**Byddwn yn gwybod ein bod wedi cyflawni ein blaenoriaethau pan fydd pobl ag anabledd dysgu yn dweud wrthym fod ansawdd eu bywydau wedi gwella.**

# ATODIAD A
# Ysgogwyr Strategol

| BLWYDDYN | TITLE | AUTHOR |
|---|---|---|
| 1989 | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau | Y Cenhedloedd Unedig |
| 1998 | Y Ddeddf Hawliau Dynol | Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol |
| 1999 | Canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal | Llywodraeth y DU |
| 2005 | Y Ddeddf Galluedd Meddyliol | Llywodraeth y DU |
| 2010 | Y Ddeddf Cydraddoldeb | Llywodraeth y DU |
| 2014 | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | Llywodraeth Cymru |
| 2015 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Llywodraeth Cymru |
| 2017 | Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol | Llywodraeth Cymru |
| 2018 | Chymru iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Llywodraeth Cymru |
| 2018 | Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 | Llywodraeth Cymru |
| 2018 | Anabledd Dysgu – Rhaglen Gwella Bywydau | Llywodraeth Cymru |
| 2021 | Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19 | Llywodraeth Cymru |
| 2021 | Strategaeth Anabledd Genedlaethol | Llywodraeth y DU |
| 2021 | Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – COVID-19: Edrych tua'r dyfodol | Llywodraeth Cymru |
| 2022 | Cynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu Llywodraeth Cymru 2022-2026 | Llywodraeth Cymru |
| 2022 | Asesiad o Anghenion Poblogaeth Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg |
| 2022 | Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022-2027 | Llywodraeth Cymru |
| 2022 | Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol Anabledd Dysgu i Oedolion | Llywodraeth Cymru |
| 2022 | Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg |

**Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau gwahanol.**

Cysylltwch â **Swyddog Trawsnewid Gorllewin Morgannwg** gyda manylion eich gofynion:

E-bost: **west.glamorgan@abertawe.gov.uk** | Ffôn: **01792 633 805**

**Partneriaeth** Ranbarthol Gorllewin Morgannwg | West Glamorgan Regional **Partnership**